| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **13, Ebrill, 2011.** |
| **PWNC** | **DATBLYGIADAU DIWEDDAR YN Y MAES.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

**<u>Paragraff 10(2)(b) - Côd Ymddygiad Aelodau.</u>**

1. Dywed paragraff 10(2)(b) o'r Côd Ymddygiad fel a ganlyn :-

   "Rhaid i chwi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef………. pe byddai yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd ganfod fod gwrthdaro rhwng eich rôl o ran gwneud penderfyniad ar y busnes hwnnw ar ran eich awdurdod yn gyfan a'ch rôl o ran cynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu eich dosbarth etholiadol."

2. Mae'r paragraff uchod wedi creu problemau o ddehongli ers iddo gael ei gynnwys yn y Côd yn 2008. Efallai y bydd i aelodau gofio iddo gael ei drafod yn y Gynhadledd Safonau yn Aberystwyth ym mis Medi y flwyddyn honno, pan ddaethpwyd i'r casgliad mai bwriad y paragraff oedd i sicrhau na fyddai aelodau o'r cabinet, pan yn cymryd penderfyniadau dan hawliau dirprwyedig yn gwneud hynny i ffafrio materion o fewn eu ward eu hunain.

3. Yn dilyn hynny gwnaed cwyn mewn perthynas â mater cynllunio yn erbyn aelod o Gyngor Ceredigion ac wedi i'r Ombwdsmon gyhoeddi adroddiad, anfonwyd y gwyn i Banel Dyfarnu Cymru i'w ystyried. Cyhoeddwyd penderfyniad llawn y Panel ar y 18$^{fed}$ o Fawrth. Mae'n amlwg o'r penderfyniad i'r Panel Dyfarnu benderfynu nad yw'r paragraff yn gyfyngedig i aelodau o'r cabinet yn gweithredu hawliau dirprwyedig, ond ei fod hefyd yn berthnasol i sefyllfa aelod lleol ar Bwyllgor Cynllunio.

4. Yn fras iawn, yn yr achos yng Ngheredigion roedd y cynghorydd wedi datgan yn ei faniffesto y byddai'n gwrthwynebu datblygiad ar safle arbennig, ac 'roedd wedi gwneud sylwadau wrth y wasg ynglŷn â'r mater. Pan ddaeth y mater gerbron y Pwyllgor Cynllunio pleidleisiodd y cynghorydd yn erbyn y datblygiad.

5. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod hyn yn groes i baragraff 10(2)(b) o'r Côd oherwydd y gallasai aelod o'r cyhoedd ganfod gwrthdaro rhwng rôl y cynghorydd fel aelod lleol a'i rôl yn gwneud penderfyniad ar ran yr awdurdod. Yn benodol gallasai'r cyhoedd fod wedi dod i'r casgliad rhesymol ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y cais cynllunio oherwydd iddo

Gael ei ddylanwadu yn fwy gan faterion o fewn ei ward na chan fuddiannau'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

6. Mae gan y penderfyniad hwn oblygiadau pellgyrhaeddol i rôl aelodau lleol ac i ddehongliad y Côd Ymddygiad. Mae'n atgyfodi ansicrwydd ynglŷn â dan ba amgylchiadau y bydd aelodau lleol yn cael eu gwahardd rhag pleidleisio ar faterion o fewn eu ward.

7. O ganlyniad mae'r gymdeithas sy'n cynrychioli swyddogion monitro wedi anfon llythyr at Lywodraeth y Cynulliad yn gofyn iddynt adolygu'r paragraff hwn o'r Côd. Deallir y bydd yr Ombwdsmon yn cyhoeddi canllawiau penodol ar y paragraff hwn ac mae'r gymdeithas wedi pwyso arno i gyhoeddi y rheini yn fuan er mwyn i aelodau a swyddogion gael rhywfaint o sicrwydd ynglŷn â dehongli'r Côd.

**<u>Cynhadledd Safonau 2011.</u>**

8. Cafwyd cadarnhad y cynhelir y gynhadledd eleni yn Llandrindod ar y 5ed o Hydref. Mae'r rhaglen ddrafft yn cynnwys cyflwyniadau gan banel yn y bore, yna gweithdy i ystyried y Côd Ymddygiad cyn cinio a ffug wrandawiad ar ôl cinio. Byddai trefnwyr y gynhadledd yn falch o dderbyn unrhyw awgrymiadau eraill ynghyd â chynigion o gymorth ar gyfer y ffug wrandawiad.

**<u>Paragraff 8(a) o'r Côd Ymddygiad i Aelodau.</u>**

9. Mae'r paragraff hwn o'r Côd yn dweud (ymysg pethau eraill) bod rhaid i aelodau wrth wneud penderfyniadau rhoi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan y swyddogion statudol. Cododd cwestiwn mewn achos yr oedd yr Ombwdsmon yn ymchwilio iddo yng Nghyngor Abertawe ynglŷn â beth oedd "cyngor perthnasol" ac yn benodol felly, os oedd elfen o'r cyngor yn anghywir a fyddai hynny'n golygu nad oedd y cyngor yn "berthnasol".

10. O ganlyniad i benderfyniad yr Ombwdsmon i ddod a'i ymchwiliad i ben yn yr achos hwnnw, mae'r gymdeithas sydd yn cynrychioli swyddogion monitro yng Nghymru wedi cael barn bargyfreithiwr ynglŷn â sut y dylid dehongli y paragraff hwn mewn perthynas â thalu sylw i gyngor swyddogion. Byddaf yn darparu adroddiad llawn ar hyn i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**<u>Argymhelliad.</u>**

11. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r datblygiadau diweddar a chynnig unrhyw sylwadau.